Cyllid & Thollau EF

# Cyfandaliad budd-dal marwolaeth pensiwn: cais am ad-daliad (blwyddyn dreth 2024 i 2025)

## Ynglŷn â'r ffurflen hon

Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud cais am y dreth sydd arnom i chi ar gyfandaliad budd-dal marwolaeth pensiwn a gawsoch yn ddiweddar pan fo'r canlynol yn gymwys:

- rydych wedi cymryd cyfandaliad budd-dal marwolaeth pensiwn sydd wedi gwagio eich cronfa
- rydych wedi cael P45 gan eich darparwr pensiwn

Os nad ydych yn breswylydd y DU at ddibenion treth, nid oes angen i chi lenwi'r ffurflen hon. Yn hytrach, ewch i www.gov.uk/tax-foreign-income/taxed-twice neu ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg ar 0300 200 1900.

Er mwyn i ni allu sicrhau ein bod yn ad-dalu'r swm cywir o dreth i chi, llenwch y ffurflen hon â manylion unrhyw incwm arall yr ydych yn disgwyl ei gael yn ystod y flwyddyn dreth. Os nad ydych yn gwybod beth yw'r ffigurau terfynol, nodwch yr amcangyfrifon mwyaf manwl gywir ag y gallwch.

**Os ydych yn llenwi Ffurflen Dreth Hunanasesiad:**

- peidiwch â chynnwys incwm Hunanasesiad sydd wedi'iamcangyfrif yn eich cais, oni bai eich bod am i ni ei gynnwys wrth gyfrifo'ch ad-daliad
- bydd yn dal i fod yn rhaid i chi dalu unrhyw daliadau mantoli sy'n ddyledus, a thaliadau ar gyfrif pan ddaw'n amser gwneud hynny.Gallwch ofyn i ni ddefnyddio'ch ad-daliad i ostwng eich taliadau argyfrif
- dylech gynnwys unrhyw ad-daliad yr ydych wedi'i gael areich Ffurflen Dreth Hunanasesiad nesaf
- mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni pan nad oes angen i chilenwi Ffurflen Dreth Hunanasesiad mwyach

Os oes gennych incwm TWE ac incwm Hunanasesiad, ni fyddwn yn cynnwys incwm Hunanasesiad wrth gyfrifo'ch ad-daliad, oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud hynny.

Byddwn yn cynnal gwiriadau ar ddiwedd y flwyddyn dreth, ac yn cysylltu â chi os yw'r swm yn wahanol.

Awgrymwn eich bod yn cadw'r gwaith papur hwn tan fod y gwiriadau hyn wedi'u cwblhau.

**Yr hyn i'w wneud nawr**

Atebwch gwestiynau 1 i 9 isod, cyn ateb pob cwestiwn arall sy'n berthnasol i chi.

Defnyddiwch rifau cyfan, wedi'u talgrynnu i lawr i'r bunt agosaf.

Sicrhewch eich bod yn llofnodi'r datganiad ar dudalen 8.

I gael arweiniad pellach, gallwch ffonio Tax Help for Older People ar 01308 488 066. Sylwer - llinell uniaith Saesneg yw hon. Elusen annibynnol yw hon sy'n rhoi cyngor ynghylch treth yn rhad ac am ddim i bobl hŷn ar incymau isel.

Os oes angen fersiwn print bras o'r ffurflen arnoch, ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900.

## Ynglŷn â chi

1 **Teitl**
Er enghraifft Mr, Mrs, Miss, Ms neu Dr

2 **Eich cyfenw neu enw teuluol**

3 **Eich enw cyntaf**

4 **Eich cyfeiriad**

Cod post

5 **Eich rhif ffôn cyswllt**

6 **Yr amser gorau i gysylltu â chi**

7 **Eich dyddiad geni** DD MM BBBB

8 **Eich rhif Yswiriant Gwladol**
Enghraifft - QQ123456A

9 **Eich cyfeirnod TWE y cyflogwr**
Enghraifft - 123/A246

/

## Incwm o gyflogaeth

Nodwch gyfanswm eich cyflog o bob cyflogaeth (gan gynnwys unrhyw waith rhan-amser) cyn didynnu treth. Dylech gynnwys yr incwm y disgwyliwch ei gael o 6 Ebrill i 5 Ebrill yn y flwyddyn dreth pan gawsoch eich cyfandaliad budd-dal marwolaeth pensiwn. Os oes gennych fwy nag un swydd, rhestrwch bob cyflogwr a swm y tâl disgwyliedig gan bob un.

Os oes gennych fuddiannau trethadwy, megis car cwmni neu yswiriant meddygol, mae'n rhaid i chi hefyd gynnwys ffigur wedi'i amcangyfrif ar gyfer y rhain. I gael rhagor o wybodaeth am Dreth ac Yswiriant Gwladol ar fuddiannau cwmni, ewch i www.gov.uk/tax-company-benefits

Os nad ydych yn siŵr beth yw swm y buddiant trethadwy yr ydych yn mynd i'w gael, gallwch ofyn i'ch cyflogwr am amcangyfrif o'r swm am y flwyddyn dreth.

10 **A ydych yn disgwyl cael incwm o gyflogaeth am dâl yn ystod blwyddyn dreth 2021 i 2022?**

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 11

Ydw ☐ Os Ydw, llenwch y tabl isod

| Cyflogwr | Swm disgwyliedig yr incwm gan y cyflogwr cyn treth | A ydych yn cael buddiannau trethadwy gan y cyflogwr hwn (Y/N)? | Cyfanswm amcangyfrifedig y buddiannau trethadwy |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Incwm o hunangyflogaeth

Dangoswch elw o hunangyflogaeth yn unig. Dylid cynnwys cyflogaeth am dâl yng nghwestiwn 10. Dim ond ar elw o incwm neu enillion ar ôl didyniadau ar gyfer treuliau neu lwfansau y caiff treth ei thalu. Nodwch y swm cyn didynnu treth.

11 **A ydych yn disgwyl cael unrhyw elw o hunangyflogaeth yn ystod blwyddyn dreth 2021 i 2022?**

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 13

Ydw ☐ Os Ydw, ewch i gwestiwn 12

12 **Cyfanswm yr elw**

£ ☐☐☐☐☐☐☐☐ . 0 0

## Incwm o bensiynau'r DU

Byddwn yn holi am fanylion Pensiwn y Wladwriaeth yng nghwestiwn 14.

Mae hyn yn cynnwys incwm o'r canlynol:

- blwydd-daliadau pensiwn
- y gweithle
- pensiynau galwedigaethol a phersonol
- pensiwn bach (cymudiad pitw)
- taliadau pensiwn hyblyg a dalwyd fel cyfandaliadau
- cyfandaliad budd-dal marwolaeth

Dylai cwsmeriaid sy'n llenwi'r ffurflen hon beidio â chynnwys incwm nad yw'n drethadwy yn yr adran hon. Felly, ni ddylid datgan cyfandaliad budd-dal marwolaeth sy'n rhydd o dreth.

Nodwch swm llawn incwm o bensiynau'r DU yr ydych yn disgwyl ei gael cyn didynnu treth, a rhan drethadwy'r taliad pensiwn hyblyg neu swm taliad budd-dal marwolaeth pensiwn (Dangosir hyn yn rhan 1a o'r ffurflen P45 y mae eich darparwr pensiwn wedi ei rhoi i chi).

I gael rhagor o wybodaeth am sut y trethir eich incwm o bensiynau, ewch i www.gov.uk/tax-on-pension

13 **A ydych wedi cael, neu'n disgwyl cael, incwm o bensiynau'r DU yn ystod blwyddyn dreth 2021 i 2022?**

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 14

Ydw ☐ Os Ydw, llenwch y tabl isod

| Enw llawn a chyfeiriad y talwr pensiwn | Swm llawn incwm o bensiynau'r DU yr ydych yn disgwyl ei gael cyn didynnu treth |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

**Manylion taliadau budd-dal marwolaeth pensiwn a dalwyd fel cyfandaliadau**
Peidiwch â chynnwys unrhyw elfen o'r taliad nad yw'n elfen drethadwy

| Enw'r cwmni sy'n talu'r budd-dal marwolaeth | Treth a ddidynnwyd | Cyfandaliad trethadwy |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## Budd-daliadau trethadwy'r Wladwriaeth

Y canlynol yw budd-daliadau trethadwy mwyaf cyffredin y Wladwriaeth:

- Budd-dal Analluogrwydd trethadwy
- Lwfans Ceisio Gwaith
- Pensiwn y Wladwriaeth
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth trethadwy
- Credyd Cynhwysol trethadwy

Os ydych yn oedi cyn hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth a'ch bod wedi cael, neu'ch bod yn disgwyl cael, cyfandaliad yn ystod y flwyddyn dreth hon, dylech gynnwys y swm hwn yn yr adran hon. I gael rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau a rhestr lawn o holl fudd-daliadau trethadwy'r Wladwriaeth, ewch i www.gov.uk/income-tax/taxfree-and-taxable-state-benefits

Rhestrwch bob math o fudd-dal trethadwy'r Wladwriaeth, a'r swm yr ydych yn ei gael, neu yr ydych yn disgwyl ei gael, ar wahân.

I gyfrifo'r swm y byddwch yn ei gael, lluoswch swm eich taliad rheolaidd â'r nifer o daliadau yr ydych yn disgwyl eu cael yn ystod y flwyddyn dreth.

14 **A ydych yn disgwyl cael budd-daliadau trethadwy'r Wladwriaeth yn ystod blwyddyn dreth 2021 i 2022?**

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 15

Ydw ☐ Os Ydw, llenwch y tabl isod

| Enw budd-dal trethadwy'r wladwriaeth | Swm llawn budd-daliadau trethadwy'r Wladwriaeth yr ydych yn disgwyl ei gael cyn didynnu treth |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

## Llog wedi'i drethu ar gynilion ac incwm o fuddsoddiadau yn y DU

Yn ogystal â llog banc a chymdeithas adeiladu, dylech gynnwys llog o dderbynwyr adneuon eraill a llog a dalwyd gan:

- ymddiriedolaethau unedol awdurdodedig y DU (AUTs)
- cwmnïau buddsoddi penagored (OEICs)
- cynhyrchion Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol megis Bondiau Incwm Gwarantedig neu Fondiau Twf
- ymddiriedolaethau buddsoddi
- taliadau iawndal Yswiriant Diogelu Taliadau (PPI)

Dylai'r banc fod wedi anfon cyfriflenni atoch yn dangos y llog a dalwyd.

Dim ond manylion unrhyw log a gaiff ei drethu cyn i chi ei gael y dylech eu nodi. Os oes gennych gyfrif ar y cyd dim ond eich cyfran chi, fel arfer 50 y cant, o'r llog a gafwyd y dylech ei rhoi.

Mae'r buddsoddiadau hyn weithiau'n talu difidendau. Os felly, bydd yn rhaid i chi ateb y cwestiynau o dan 'Difidendau o gwmnïau yn y DU'. I gael rhagor o wybodaeth am gyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu, ewch i www.gov.uk/apply-tax-free-interest-on-savings

**15** **A ydych yn disgwyl cael llog wedi'i drethu ar incwm sy'n deillio o gynilion a buddsoddiadau yn y DU yn ystod blwyddyn dreth 2021 i 2022?**

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 18

Ydw ☐ Os Ydw, ewch i gwestiwn 16

**16** **Cyfanswm y llog ar gynilion (cyn treth)**

£ ☐☐☐☐☐☐☐☐ . 0 0

**17** **Cyfanswm y dreth a dalwyd**

£ ☐☐☐☐☐☐☐☐ . 0 0

## Llog heb ei drethu ar gynilion yn y DU

Enghreifftiau o gyfrifon a chynhyrchion a allai dalu llog heb ei drethu yw:

- Cynhyrchion Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, megis
  - Direct Saver
  - Cyfrifon Cynilo Easy Access (EASAs)
  - Bondiau Incwm
  - Cyfrifon Buddsoddi
- cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu a derbynwyr adneuon eraill (gan gynnwys pan lenwyd R85 gennych)
- llog a dalwyd ar fenthyciadau preifat
- llog a gafwyd ar daliadau iawndal Yswiriant Diogelu Taliadau (PPI)

Does dim rhaid i chi gynnwys cynhyrchion sydd wedi eu heithrio rhag treth, megis ISAs, yn yr adran hon.

I gael rhagor o wybodaeth am fuddsoddiadau sy'n rhoi incwm yn rhydd o dreth, ewch i www.gov.uk/apply-tax-free-interest-on-savings

Os oes gennych gyfrif ar y cyd, nodwch eich cyfran chi yn unig, fel arfer 50 y cant, o'r llog a dderbynnir a nodwch y llog na chaiff ei drethu cyn i chi ei dderbyn yn unig.

Os ydych yn cael llog o Gyfrifon Cyffredinol Cynilion Cenedlaethol, nodwch y swm sydd dros £70 yn unig.

**18** **A ydych yn disgwyl cael llog heb ei drethu ar gynilion yn y DU yn ystod blwyddyn dreth 2021 i 2022?**

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 20

Ydw ☐ Os Ydw, ewch i gwestiwn 19

**19** **Cyfanswm y llog heb ei drethu yr ydych yn disgwyl ei gael**

£ ☐☐☐☐☐☐☐☐ . 0 0

## Difidendau o gwmnïau yn y DU

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- difidendau cwmnïau yn y DU
- difidendau stoc
- difidendau o Ymddiriedolaethau Unedol Awdurdodedig y DU (AUTs)
- Cwmnïau Buddsoddi Penagored (OEICs)
- ymddiriedolaethau buddsoddi

I gael rhagor o wybodaeth am ddifidendau, ewch i www.gov.uk/tax-on-dividends

Bydd pob taleb ddifidend yn dangos y credyd treth a'r difidend sydd yn daladwy.

Nodwch gyfanswm yr holl ddifidendau a gawsoch, neu yr ydych yn disgwyl iddynt gael eu talu i chi.

Peidiwch â chynnwys y credyd treth.

20 **A ydych yn disgwyl cael incwm difidend o stociau a chyfranddaliadau yn ystod blwyddyn dreth 2021 i 2022?**

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 22

Ydw ☐ Os Ydw, ewch i gwestiwn 21

21 **Cyfanswm yr incwm o ddifidendau**

£ ☐☐☐☐☐☐☐☐ . 0 0

## Unrhyw incwm arall

Mae hyn yn cynnwys incwm o:

- eiddo
- ymddiriedolaethau
- comisiynau
- cildyrnau
- incwm tramor (nodwch y math o incwm tramor, er enghraifft difidendau)
- elw a delir ar bolisïau yswiriant bywyd y DU – dylai'r cwmni yswiriant fod wedi anfon tystysgrif digwyddiad trethadwy atoch yn dangos yr wybodaeth hon
- incwm arall nad ydych wedi ei nodi unrhyw le arall ar y ffurflen

I gael rhagor o wybodaeth am ymddiriedolaethau, ewch i www.gov.uk/personal-tax/trusts neu

i gael rhagor o wybodaeth am dreth ar gynilion a buddsoddiadau tramor, ewch i www.gov.uk/tax-foreign-income

Gwnewch gofnod ar wahân ar gyfer pob math o incwm. I gael rhagor o wybodaeth am incwm sy'n drethadwy ac incwm nad yw'n drethadwy, ewch i'r dudalen we ar gip www.gov.uk/treth-incwm

Os yw'r incwm yn daliad o bolisi yswiriant bywyd, dim ond swm yr elw y dylech ei nodi.

Dylai'r cwmni yswiriant fod wedi anfon tystysgrif digwyddiad trethadwy atoch yn dangos yr wybodaeth hon.

22 **A ydych yn disgwyl cael incwm arall yn ystod blwyddyn dreth 2021 i 2022?**

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 23

Ydw ☐ Os Ydw, llenwch y tabl isod

| Ffynhonnell unrhyw incwm arall | Swm llawn incwm arall yr ydych yn disgwyl ei gael |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## Taliadau Rhodd Cymorth

Mae'r cynllun Rhodd Cymorth ar gyfer rhoddion o arian i Elusennau neu Glybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CChAC). Bydd yr elusen neu'r CChAC yn gofyn i chi ddatgan eich bod yn talu treth y DU ac yna yn gwneud cais i'w chael yn ôl oddi wrth Gyllid a Thollau EF (CThEF).

Os nad ydych wedi talu treth sy'n gyfwerth â'r swm y bydd yr elusen neu'r CChAC yn ei hawlio fel ad-daliad, byddwn yn cynnwys y gwahaniaeth wrth gyfrifo'ch ad-daliad.

I gael rhagor o wybodaeth am Roi i elusen drwy Rodd Cymorth, ewch i www.gov.uk/donating-to-charity/gift-aid

**23** **A ydych yn disgwyl gwneud taliadau Rhodd Cymorth yn ystod blwyddyn dreth 2021 i 2022?**

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, ewch i 'Sut y byddwn n eich ad-dalu'

Ydw ☐ Os Ydw, ewch i gwestiwn 24

**24** **Cyfanswm y taliadau Rhodd Cymorth yr ydych yn disgwyl eu gwneud yn ystod blwyddyn dreth 2021 i 2022**

Dylech gynnwys taliadau rheolaidd a thaliadau unigol

£ . 0 0

**25** **Cyfanswm taliadau Rhodd Cymorth unigol**

Cyfanswm taliadau Rhodd Cymorth unigol wedi'i gynnwys yng nghwestiwn 24

£ . 0 0

## Sut y byddwn yn eich ad-dalu

Pan fyddwn wedi cyfrifo ad-daliad sy'n ddyledus i chi, byddwn yn anfon siec atoch. Gallwn anfon hon yn uniongyrchol atoch i'ch cyfeiriad cartref, neu i'ch cyfrif banc neu i gyfeiriad eich enwebai. Dim ond i gyfrif sydd yn eich enw chi neu eich enwebai y gall y siec gael ei thalu.

Ni ellir gwneud ad-daliadau drwy gyfrwng Bacs (Bankers Automated Clearing Service).

**26** **I ble y dylem anfon yr ad-daliad?**

☐ Eich cyfeiriad (ewch i'r Datganiad)

☐ Cyfeiriad eich enwebai (ewch i gwestiwn 27 i 29)

## Manylion cyfeiriad yr enwebai

**27** **Enw'r enwebai**

**28** **Os mai'ch ymgynghorydd treth yw'ch enwebai, nodwch ei gyfeirnod**

**29** **Cyfeiriad yr enwebai**

Cod post

## Datganiad

Gallaf gadarnhau bod yr wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred. Amgaeaf rannau 2 a 3 o bob ffurflen P45 yr wyf wedi ei chael ar gyfer taliadau pensiwn a gyrchir yn hyblyg.

**Cwsmeriaid Hunanasesiad**

☐ Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen yr adran Hunanasesiad ar dudalen 1 ac rwy'n gwybod fod yn rhaid i mi ddatgan unrhyw ad-daliad a gafwyd ar fy Ffurflen Dreth nesaf.

**Enw llawn**

**Rhif ffôn yn ystod y dydd** (gan gynnwys y cod deialu)

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

**Os ydych wedi llofnodi ar ran rhywun arall, nodwch ym mha rinwedd yr ydych yn llofnodi'r ffurflen hon**

Gall y bobl ganlynol wneud ceisiadau:

- y person a awdurdodwyd gan y llysoedd i ofalu am faterion oedolyn sy'n anabl yn feddyliol (neu'r person a benodwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau)
- atwrnai a awdurdodwyd gan bŵer atwrnai cyffredin neu gyffredinol

Dewiswch ym mha rinwedd yr ydych yn llofnodi'r ffurflen hon:

- Gweinyddwr
- Ysgutor
- Pŵer Atwrnai
- Derbynnydd
- Ymddiriedolwr

## Yr hyn i'w wneud nawr

Ni allwn ddelio â'ch cais heb rannau 2 a 3 eich ffurflen P45. Dylai'ch darparwr pensiwn fod wedi rhoi'r rhain i chi.
Os ydych wedi colli'ch P45, neu heb ei chael, gofynnwch i'ch darparwr pensiwn am fanylion dyblyg cyn anfon y ffurflen hon.

Os yw'r ffurflen P45 wreiddiol yn dod i law nes ymlaen, ni ddylech roi rhannau 2 a 3 i gyflogwr neu ddarparwr pensiwn newydd oherwydd gallai hynny effeithio ar y dreth yr ydych yn ei thalu ar ddiwedd y flwyddyn. Peidiwch ag anfon llungopïau.

**Dewiswch un o'r opsiynau isod**

☐ Rwyf wedi amgáu rhannau 2 a 3 o'm ffurflen P45 'Manylion cyflogai'n gadael gwaith'

☐ Ni allaf gael gafael ar ffurflen P45

Rhowch wybod i ni pam yn y blwch isod, er enghraifft oherwydd eich bod wedi ymddeol neu'n un o weision y Goron yn y DU a gyflogwyd dramor.

☐ **Gwiriwch eich bod wedi llenwi pob rhan o'r ffurflen sy'n berthnasol i chi**

☐ **Gwiriwch eich bod wedi llenwi, llofnodi a rhoi'r dyddiad ar y datganiad ar dudalen 8**

**Anfonwch y ffurflen hon i:**

Talu Wrth Ennill
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM
HMRC
BX9 1ST

## Sut yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth sydd gennym amdanoch

Mae Cyllid a Thollau EF yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys at ddibenion asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddyn nhw. Os gwnawn hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu yn unig, er mwyn:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Efallai y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gallai hynny gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis adrannau neu asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EF, oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs/about/personal-information-charter.cy

**Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau**
Mae 'Siarter CThEF' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy